



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Presgripsiwn Newydd



**Dyfodol fferylliaeth gymunedol yng Nghymru**  
Rhagfyr 2021

# Cynnwys

---

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Fferyllfeydd wrth galon ein cymunedau	4
Cynnydd o dan y fframwaith contractiol presennol	4
Angen ac ymrwymiad i ddiwygio	5
Effaith COVID-19	6
Y sefyllfa ar hyn o bryd	7
Y dyfodol	8
Beth sy'n bwysig i ni	9
Diwygio Contract – Yr hyn rydym wedi cytuno arno	11
Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol	11
Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol	13
Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol	14
Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG	15
Beth arall rydym yn ei wneud	17
Casgliad	18

# Rhagair

---

Mae fferyllfeydd cymunedol yn gwneud gwaith hanfodol mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Fel darparwyr gwasanaethau'r GIG, maent yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella iechyd a lles pobl Cymru drwy sicrhau eu bod yn cael y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt i gadw eu hunain yn iach a thrwy ddarparu dewis amgen i wasanaethau eraill y GIG ar gyfer amrywiaeth o anghenion iechyd a chyngor. Mae'r ffaith fod yna dros 700 o fferyllfeydd cymunedol ar gael yng Nghymru, yn darparu gofal pryd a lle mae pobl ei angen, yn aml heb apwyntiad, yn lleddfu pwysau ar rannau eraill o'r GIG ac yn creu amser i wasanaethau eraill ddarparu'r gofal y gallan nhw'n unig ei ddarparu.

Mae rôl fferylliaeth gymunedol wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Er bod y rôl hanfodol y mae fferyllfeydd yn ei chyflawni o ran sicrhau bod meddyginiaethau ar bresgripsiwn pobl yn cael eu dosbarthu'n ddiogel wedi parhau, mae'r cyfraniad y mae fferyllwyr yn ei wneud at wella iechyd drwy ddarparu gwasanaethau clinigol yn helpu i newid y ffordd y mae pobl yn defnyddio'r GIG, drwy wella mynediad i'r gwasanaethau mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Bob mis, mae miloedd lawer o bobl bellach yn troi at eu fferyllfa leol fel mater o drefn i gael cyngor a thriniaeth ar gyfer amrywiaeth o fân anhwylderau cyffredin, ar gyfer cyflenwadau o'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn argyfwng, neu i gael dulliau atal cenhedlu. Mae un o bob deg o frechiadau fflw tymhorol y GIG bellach yn cael ei ddarparu gan fferyllfeydd ac maent wedi gwneud cyfraniad pwysig at gyflwyno ein rhaglen frechu COVID-19

hynod lwyddiannus, yn enwedig yn ein hardaloedd mwyaf gwledig.

Yn ystod y pandemig COVID-19, mae rhwydwaith fferylliaeth gymunedol Cymru wedi cyflawni swyddogaeth bwysig drwy gefnogi miliynau o bobl, tra hefyd yn helpu i gadw pwysau oddi ar feddygfeydd, ysbytai a gwasanaethau cyhoeddus eraill mewn cyfnod o argyfwng. Mae ein profiadau a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig wedi ein helpu i ddatblygu rôl fferyllfeydd cymunedol ymhellach. Mae'r sector fferylliaeth gymunedol wedi ymateb i'r her ac wedi croesawu ein huchelgais ar gyfer gwasanaeth fferylliaeth gymunedol diwygiedig. Mae'n bryd cydnabod a gwobrwyo fferyllfeydd sy'n deall, yn rhannu ac yn gallu cyflawni ein huchelgais hirdymor.

O fis Ebrill 2022, bydd fferylliaeth gymunedol yng Nghymru yn mabwysiadu dull contractiol newydd, *presgripsiwn newydd* sy'n adeiladu ar y cynnydd sylweddol rydym eisoes wedi'i wneud. Mae'r contract newydd yn darparu ar gyfer dull cydweithredol, arloesol a blaengar o ddarparu gofal fferyllol er mwyn sicrhau bod timau fferylliaeth gymunedol yn cael yr effaith fwyaf posibl i ddiwallu anghenion y GIG a phobl yng Nghymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



**Eluned Morgan AS**  
Y Gweinidog Iechyd  
a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

# Cyflwyniad

## Fferyllfeydd wrth galon ein cymunedau

Dosbarthu meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithlon fu conglaen ymarfer fferylliaeth gymunedol y GIG ers 70 mlynedd a mwy. Ers ei sefydlu ym 1948, mae fferyllfeydd cymunedol wedi cefnogi'r GIG i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt.

Yn ogystal â'u rôl o ran darparu gwasanaethau'r GIG, mae sector fferylliaeth gymunedol cryf yn dod â manteision ehangach i iechyd y cyhoedd. Mae fferyllfeydd yn asedau cymunedol, yn ffynonellau cyfalaf cymdeithasol a sbardunwyr economaidd ar y stryd fawr, gan helpu i gefnogi ac ysgogi'r economi leol, creu cyfleoedd cyflogaeth lleol ac annog cwsmeriaid i ymweld â busnesau eraill. Mae fferyllfeydd yn rhan hanfodol o'r economi sylfaenol yng Nghymru, gan helpu i greu a chynnal cymunedau lleol bywiog.



## Cynnydd o dan y fframwaith contractiol presennol

Fe wnaeth newidiadau deddfwriaethol ac ariannu a wnaed yn 2005, pan gafodd trefniadau contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol eu diwygio ddiwethaf, greu'r llwyfan i fferyllfeydd ddarparu amrywiaeth gynyddol o wasanaethau clinigol. Ers y diwygiadau hynny, ac yn arbennig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu newid yn nisgwyladau'r GIG, y cyhoedd a gweithwyr fferyllol proffesiynol unigol ynghylch y rôl y gall fferyllfeydd cymunedol ei chwarae o ran gwella iechyd a lles gan ganolbwyntio llawer mwy ar ddarparu gwasanaethau clinigol ochr yn ochr â'r rôl draddodiadol o gyflenwi meddyginiaethau.

Ers 2011, mae argaeledd gwasanaethau clinigol fferylliaeth gymunedol wedi bod yn cynyddu'n gyson. Mae'r rhan fwyaf o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru bellach yn darparu amrywiaeth o wasanaethau clinigol fel mater o drefn gan gynnwys gwasanaethau sy'n:

- Darparu mynediad amserol at gyngor a thriniaeth ar gyfer amrywiaeth o anghenion gofal brys, gan gymryd pwysau oddi ar rannau eraill y GIG;
- Helpu i ddiogelu iechyd y boblogaeth drwy gynyddu cyfraddau brechu a lleihau cyffredinrwydd ymddygiadau iechyd risg uchel;
- Cefnogi'r GIG ehangach drwy hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel a lleihau nifer yr achosion o aildderbyn i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau.

Mae'r cynnydd da a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'i ategu gan welliannau yn ein dull gweithredu ar lefel genedlaethol, yn benodol:

- Cydweithio llawer cryfach rhwng byrddau iechyd wrth ddatblygu gwasanaethau clinigol arloesol a gefnogir gan fanylebau gwasanaeth cenedlaethol a strwythur tâl gwasanaeth clinigol cenedlaethol;
- Datblygu'r system TG *Dewis Fferyllfa* gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau clinigol drwy ddarparu mynediad at wybodaeth am gleifion a rennir a lleihau'r baich gweinyddol;
- Gweithredu trefniadau Achredu Gwasanaeth Cenedlaethol Ychwanegol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) sy'n sicrhau cymhwysedd fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n darparu gwasanaethau clinigol ychwanegol sy'n caniatáu iddynt weithio yn unrhyw le yng Nghymru, heb fod angen achrediad ym mhob bwrdd iechyd.

## Angen ac ymrwymiad i ddiwygio

Mae fferyllwyr cymunedol yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel ac sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w cleifion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae disgwyliadau'r GIG a phobl yng Nghymru, sy'n newid, yn golygu bod yn rhaid i ni fynd ymhellach i wireddu'r potensial sydd gan fferyllwyr cymunedol i chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau clinigol a gwella iechyd a lles.



Ym mis Hydref 2016, mewn ymateb i doriadau i gyllid fferylliaeth gymunedol yn Lloegr, cadarnhaodd y Gweinidogion eu bwriad i weld buddsoddiad parhaus yn y sector fferylliaeth gymunedol yng Nghymru ond gwnaethant fuddsoddiad yn y dyfodol yn amodol ar ddarparu trefniadau newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol a fyddai, ymhlith pethau eraill, yn darparu mwy o amrediad o wasanaethau clinigol mewn fferyllfeydd.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) wedi bod yn gweithio i gytuno ar ddiwygiadau i drefniadau contractiol ar gyfer fferyllfeydd cymunedol, er mwyn gwireddu dyhead Gweinidogion am wasanaeth fferylliaeth gymunedol sy'n gallu diwallu anghenion dinasyddion yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Gan gydnabod y cynnydd da a wnaed yn gynnar yn y trafodaethau, ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gytundeb aml-flwyddyn a oedd â'r nod o alluogi fferyllfeydd cymunedol i barhau i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru. Roedd y cytundeb yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes o ran creu fferyllfeydd cymunedol gwirioneddol

glinigol, gan ddiwallu anghenion pobl a'r GIG fel rhan annatod o dirwedd gofal sylfaenol gref. Gan ddarparu cyllid ychwanegol o £18.3 miliwn ar gyfer fferyllfeydd dros y cyfnod o dair blynedd, gyda'r cyllid cyffredinol ar gyfer y sector yn debygol o gynyddu £8.6 miliwn y flwyddyn erbyn 2022–23, roedd y cytundeb yn cadarnhau y byddai diwygiadau'n parhau i sicrhau bod gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn diwallu anghenion pobl yng Nghymru drwy gynyddu'r cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol gan fferyllfeydd, gyda gostyngiadau graddol yng nghyfran yr incwm sy'n gysylltiedig â dosbarthu presgripsiynau.

## Effaith COVID-19

Yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf y pandemig COVID-19, gwelodd fferyllfeydd cymunedol lawer mwy o alw am eu gwasanaethau, yn enwedig drwy gynyddu nifer y presgripsiynau a cheisiadau i ddosbarthu presgripsiynau i gartrefi pobl. Yn sgil y newidiadau i ffyrdd o weithio, a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y galw

a'r mesurau angenrheidiol i gyfyngu ar achosion o drosglwyddo COVID-19, wynebodd fferyllfeydd gostau ychwanegol sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG. I gydnabod y costau cynyddol, darparwyd cyllid ychwanegol o £9.1 miliwn i fferyllfeydd cymunedol yn 2019–20.

Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cyflymu arloesedd mewn rhannau o'r sector, er enghraifft drwy ddefnyddio mwy o ymgynghoriadau fideo ac awtomeiddio yn y broses dosbarthu presgripsiynau. Er gwaethaf yr heriau, mae'r pandemig wedi tynnu sylw at rôl hanfodol fferyllfeydd cymunedol ac mae wedi ein hatgoffa o'u gwerth uchel i bobl fel ffynhonnell hygyrch y gellir ymddiried ynddi o gyngor iechyd yn y gymuned.

Mae'r newidiadau contractiol a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor fferylliaeth gymunedol yng Nghymru, gan sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar arbenigedd gweithwyr fferyllol cymunedol proffesiynol i helpu i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r GIG ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.



# Y sefyllfa ar hyn o bryd

---

Ar hyn o bryd, mae 713 o fferyllfeydd cymunedol wedi'u lleoli ar y stryd fawr, mewn canolfannau siopa, archfarchnadoedd, ac wedi'u cydleoli â meddygfeydd ledled Cymru. Yn 2019–20, mae'r fferyllfeydd hyn wedi:

- Dosbarthu dros 75 miliwn o bresgripsiynau ar gyfer meddyginiaethau sydd eu hangen i drin cyflyrau aciwt a hirdymor;
- Darparu triniaeth a chynghor drwy bron i 75,000 o ymgynghoriadau yng ngwasanaeth anhwylderau cyffredin GIG Cymru lle byddai 80% o gleifion wedi gorfod ymweld â'u meddyg teulu fel arall;
- Cynnal bron i 24,000 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu brys, gyda thros ddwy ran o dair o'r ymgynghoriadau'n cael eu cynnal o fewn 24 awr i gyfathrach rywiol heb ddiogelwch;
- Rhoi mwy na 90,000 o frechiadau fflw tymhorol i bobl sydd â'r risg uchaf o gymhlethdodau o'r fflw;
- Cefnogi dros 12,000 o bobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty gan sicrhau bod pobl yn cael y meddyginiaethau yr oedd eu hangen arnynt ar ôl iddynt ddychwelyd gartref ar ôl bod yn yr ysbyty.

At hynny:

- Mae'r system TG *Dewis Fferyllfa* ar gael mewn 98% o fferyllfeydd cymunedol;
- Mae mynediad at gofnod meddygon teulu Cymru ar gael i fferyllwyr sy'n darparu'r gwasanaethau cyflenwi meddyginiaethau brys, brechiadau fflw tymhorol a phresgripsiynu annibynnol;
- Mae crynodebau electronig o ymgynghoriadau'r gwasanaeth fferyllol yn cael eu rhannu â meddygfeydd ar gyfer y gwasanaethau anhwylderau cyffredin, cyflenwi meddyginiaethau brys, a brechiadau fflw tymhorol;
- Mae 1,539 o fferyllwyr a 175 o dechnegwyr fferyllol wedi cwblhau'r broses *Achredu Gwasanaeth Cenedlaethol Ychwanegol*;
- Mae 146 o fferyllwyr wedi cael cymorth gan Addysg a Gwella lechyd Cymru i hyfforddi fel presgripsiynydd annibynnol.



# Y dyfodol


---

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol *Cymru Iachach*<sup>1</sup>. Roedd ymateb y proffesiwn fferyllol, *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*<sup>2</sup>, yn rhoi barn gonsensws gan y proffesiwn cyfan yng Nghymru ynghylch sut y dylid datblygu gwasanaethau fferyllol erbyn 2030. Trwy sicrhau gwybodaeth a sgiliau fferyllwyr, technegwyr fferyllol a thimau fferylliaeth ehangach, gellir gwneud cyfraniadau mwy ystyrlon i wella iechyd a lles dinasyddion Cymru.

Mae *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach* yn amlinellu nifer o nodau penodol mewn perthynas â fferylliaeth gymunedol yn benodol:

- Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu darparu drwy fferyllfa mewn ffordd sy'n diwallu anghenion dinasyddion, sy'n newid, gan gynyddu mynediad at gyngor ac arbenigedd rheolaidd yr un pryd;
- Gwneud y defnydd gorau o fferyllfeydd cymunedol i wella mynediad ar gyfer cleifion a lleddfu pwysau ar rannau eraill o'r GIG;
- Cynyddu'r defnydd o sgiliau fferyllwyr-bresgripsiynwyr ym maes fferylliaeth gymunedol;
- Darparu gwasanaethau clinigol y GIG mewn fferyllfeydd yn fwy cyson gan drawsnewid pob fferyllfa yn ganolfan iechyd a llesiant leol;
- Integreiddio fferylliaeth gymunedol yn agosach â'r GIG yn benodol drwy annog cydweithio o fewn clystyrau gofal sylfaenol.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rhaid i'r cynnydd a wnaed eisoes i drawsnewid rôl fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru barhau a chyflymu.




---

1. <https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol>  
 2. <https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/pharmacy-delivering-a-healthier-wales/>



# Beth sy'n bwysig i ni

## Adeiladu ar gryfderau fferylliaeth gymunedol

Mae fferyllfeydd cymunedol yn cyflawni swyddogaeth hanfodol mewn cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Yn ogystal â'u rôl o ran darparu gwasanaethau'r GIG, mae sector fferylliaeth gymunedol cryf yn dod â manteision ehangach i iechyd y cyhoedd. Fel asedau cymunedol, mae fferyllfeydd yn chwarae rhan bwysig yn yr economi sylfaenol yng Nghymru, gan helpu i greu a chynnal cymunedau lleol bywiog.




## Bodloni disgwyliadau sy'n newid

Mae angen i rôl fferyllfeydd cymunedol esblygu i barhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau sy'n newid ymhlith unigolion a chymdeithas. Bydd hyn yn golygu bod angen ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig drwy ddefnyddio technoleg ddigidol ac awtomeiddio yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, wrth i rôl y sector newid, rhaid i ni sicrhau bod cryfderau sylfaenol fferylliaeth gymunedol, sef darparu mynediad parod i weithwyr gofal iechyd proffesiynol dibynadwy pan a ble mae pobl ei angen, yn cael eu cadw; gwasanaeth sy'n diwallu anghenion heddiw ac yfory wedi'i ategu gan werthoedd traddodiadol.



Er mwyn gwireddu hyn, bydd dyfodol fferylliaeth gymunedol yn cael ei lunio ar sail chwe egwyddor (ffigur un):

Ffigur un: Y chwe egwyddor sy'n llywio dyfodol fferylliaeth gymunedol yng Nghymru



## Gwneud mwy i wella amgylchedd, economi, cymdeithas a diwylliant Cymru

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*<sup>3</sup> yn gosod dyletswyddau penodol ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i fynd i'r afael â'r heriau megis newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldebau iechyd, rydym yn eu hwynebu yn awr ac yn y dyfodol. Mae gan fferyllfeydd cymunedol rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nid yw'r rôl y gallai fferyllfeydd ei chwarae ym mhob un o'r meysydd hyn, a thu hwnt i'r newidiadau a ddisgrifir ac a ariennir yn benodol yn y cytundeb hwn, wedi'i diffinio eto a bydd yn destun trafodaethau yn y dyfodol.




3. <https://llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru>

# Diwygio Contract – Yr hyn rydym wedi cytuno arno

---

Mae'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru, y GIG a Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn disgrifio ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer sut y dylid trawsnewid fferylliaeth gymunedol i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Mae'r cytundeb yn cynnwys diwygiadau eang i fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol (CPCF), gan ymrwmo i ddarparu gwasanaethau clinigol, datblygu'r gweithlu, gwella ansawdd a diogelwch ac integreiddio fferylliaeth gymunedol yn agosach o fewn clystyrau gofal sylfaenol. Yn bwysig, mae'r newidiadau'n cael eu hategu gan ddiwygiadau sylweddol i gyllid CPCF i gymell a gwobrwyo fferyllfeydd sy'n gwneud mwy o'r pethau sydd eu hangen ar y GIG.



Mae'r cytundeb yn ymrwymiad clir i ailystyried y rôl y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei chwarae yng Nghymru drwy newidiadau clir, fesul cam sy'n sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector. Mae'r cytundeb yn cynnwys ystod eang o ddiwygiadau o dan y pedair thema ganlynol:

- 1 Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol;
- 2 Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol;
- 3 Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol;
- 4 Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG.

## Ehangu rôl glinigol fferyllwyr cymunedol

---

### Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol clinigol newydd a ddarperir yn gyson

Fferyllfeydd cymunedol ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gofal y GIG a fyddai fel arall yn cael ei ddarparu gan wasanaethau eraill llai hygyrch neu lai priodol y GIG, a dylai pobl yng Nghymru allu disgwyl i wasanaethau sydd ar gael mewn un fferyllfa fod ar gael yn ddibynadwy ynddynt i gyd.

Bydd gwasanaeth clinigol newydd a ddarperir i bawb yn hwyluso symud oddi wrth ddull rhyngweithredol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau unigol lle mae'n rhaid i gleifion ymdrin â'r amrywiadau mewn comisiynu lleol gan fyrddau iechyd a darpariaeth gan fferyllfeydd. Bydd creu cynnig gwasanaeth mwy cyson, sydd ar gael yn y mwyafrif helaeth o fferyllfeydd yng Nghymru, yn magu hyder, yn datblygu ymddiriedaeth, yn newid ymddygiad, ac yn gwella canlyniadau.

Er mwyn gwella cysondeb ym maes comisiynu gwasanaethau gan fyrddau iechyd a darparu gwasanaethau gan fferyllfeydd, o fis Ebrill 2022 ymlaen, bydd pedwar gwasanaeth blaenoriaeth yn cael eu comisiynu'n genedlaethol.

Bydd y pedwar gwasanaeth blaenoriaeth (anhwylderau cyffredin, dulliau atal cenhedlu brys, cyflenwi meddyginiaethau brys a gwasanaethau brechu fflw tymhorol) yn cael eu cyfuno mewn un gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol cenedlaethol. Yn ystod 2022–23, byddwn yn ymestyn y gwasanaeth hwn i alluogi fferyllfeydd i ddarparu dulliau atal cenhedlu pontio a rhai y gellir eu cychwyn ar unwaith.

Bydd pob fferyllfa yn gallu darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol yn amodol ar fodloni safonau penodedig mewn perthynas â safleoedd a hyfforddiant. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i fferyllfeydd gytuno i ddarparu pob un o bedair (pum) elfen y gwasanaeth neu i optio allan yn gyfan gwbl (yn hytrach na'r trefniant presennol sy'n caniatáu i fferyllfeydd optio i mewn neu allan o wasanaethau unigol). Bydd hyn yn gwella parhad mynediad i'r gwasanaethau hyn ac yn creu lefel ofynnol newydd gyffredinol o wasanaeth y mae pob fferyllfa yn ei darparu ac yn cefnogi ymhellach ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd priodol o wasanaethau'r GIG.

### **Cefnogi gwasanaethau arloesol i ddiwallu anghenion lleol**

Bydd cyllid gwasanaethau clinigol fferylliaeth gymunedol yn cynyddu i dalu costau'r gwasanaeth newydd ac i gynorthwyo byrddau iechyd i barhau i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion lleol. Yn unol â'r newidiadau a wnaed yn 2017–18, bydd yr arian hwn yn parhau i gael ei neilltuo a bydd balans y cyllid ar gyfer y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol ar gael i fyrddau iechyd.

Pan fo'n briodol, bydd gwasanaethau a gomisiynir yn lleol yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.



### **Defnyddio sgiliau fferyllwyr-bresgripsiynwyr mewn fferylliaeth gymunedol**

Ers 2018-19 mae'r CPCF wedi cynnwys cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau presgripsiynu annibynnol fferylliaeth gymunedol gan fyrddau iechyd. Yn seiliedig ar brofiadau'r safleoedd pilot ym mhob bwrdd iechyd, rydym wedi cytuno i gyflymu'n sylweddol y broses o gyflwyno presgripsiynu annibynnol mewn fferylliaeth gymunedol.

O fis Ebrill 2022, bydd unrhyw fferyllfa yn cael ei galluogi i ddarparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol cenedlaethol newydd yn amodol ar gyflogi fferyllwyr-bresgripsiynydd annibynnol

sydd â chymwysterau a chymhwysedd addas. Bydd y gwasanaeth a gyfarwyddir yn genedlaethol hefyd yn adeiladu ar y gwasanaethau anhwylderau cyffredin a dulliau atal cenhedlu brys hirsefydledig drwy alluogi presgripsiynu ar gyfer ystod o fân afiechydon estynedig nad ydynt yn dod o dan y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, ac ar gyfer dulliau atal cenhedlu rheolaidd yn unol ag argymhellion a wnaed yn yr *Adolygiad o Lechyd Rhywiol yng Nghymru*<sup>4</sup> gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn 2018. Bydd y gwasanaeth hefyd yn caniatáu i fyrddau iechyd gytuno ar wasanaethau presgripsiynu eraill i ddiwallu anghenion lleol.

## Gweithlu sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal fferyllol rhagorol

Mae argaeledd ehangach gwasanaethau clinigol yn dibynnu ar fferyllwyr sydd â'r sgiliau clinigol priodol i'w darparu, gan gynnwys presgripsiynu annibynnol. Bydd hefyd yn dibynnu ar gael niferoedd digonol o dechnegwyr fferyllol a'r gweithlu fferyllol ehangach sydd â chymhwysedd digonol i ymgymryd â rolau a wnaed yn flaenorol gan fferyllwyr.

Addysg a Gwella lechyd Cymru fydd â'r cyfrifoldeb dros ddatblygu'r gweithlu yn bennaf. Mae cynlluniau gweithlu AaGIC wedi'u cysoni â diwygiadau'r CPCF ac yn cynnwys:

- Ymrwymiad i gefnogi o leiaf 60 o fferyllwyr cymunedol bob blwyddyn i gwblhau hyfforddiant presgripsiynu annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys talu costau ffioedd Sefydliadau Addysg Uwch a chymorth ariannol i dalu'r costau a ysgwyddir gan fferyllfeydd wrth gwblhau eu hyfforddiant;
- Archwilio argaeledd cyrsiau "mynediad i" er mwyn cefnogi

ehangu mynediad i'r llwybr hyfforddi Prentisiaeth Fodern ar gyfer technegwyr fferyllol;

- Darparu mynediad i hyfforddiant technegydd fferyllol cyn cofrestru ar gyfer cyflogwyr cymunedol drwy'r llwybr hyfforddi Prentisiaeth Fodern gyda mynediad i fwrsariaethau ar gyfer hyfforddeion fferylliaeth gymunedol yn unol â'r galw presennol am hyfforddiant;
- Sicrhau bod fferyllwyr cymunedol yn gymwys i gael cyllid y GIG ar gyfer addysg ôl-gofrestru estynedig ac uwch, pan fydd hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r gweithlu fferyllol lleol a chenedlaethol;
- Gwerthuso'r cynllun peilot Amser Dysgu Gwarchoddedig (PLT) a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithwyr fferylliaeth gymunedol proffesiynol a gwneud argymhellion ar ddyfodol PLT ar gyfer fferylliaeth gymunedol.

Yn ogystal â chynlluniau AaGIC ar gyfer datblygu'r gweithlu, cytunwyd ar gynllun cymhelliant dwy flynedd i annog contractwyr fferyllol i wireddu manteision cymysgedd sgiliau ym maes fferylliaeth gymunedol. Bydd y cynllun cymhelliant, a fydd ar waith yn 2022–23 a 2023–24, yn darparu cymhellion ariannol ar gyfer recriwtio a hyfforddi technegwyr fferyllol gan gynnwys datblygu rôl technegwyr fferyllol gwirio achrededig.



4. <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Adolygiad%20o%20lechyd%20Rhywiol%20yng%20Nghymru%20-%20Adroddiad%20Terfynol%2C%20Chwefror%202018.pdf>

## Ymrwymiad i ansawdd, cydweithio ac integreiddio o fewn gofal sylfaenol

Mae integreiddio a chydweithio fferyllfeydd cymunedol o fewn clystyrau gofal sylfaenol yn hanfodol er mwyn gwireddu potensial fferylliaeth gymunedol a thrawsnewid llwybrau gofal yn y ffordd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn *Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach*.

Ers 2018–19, mae'r CPCF wedi cynnwys cymhellion i fferyllfeydd gydweithio â darparwyr gofal sylfaenol eraill, ymarferwyr cyffredinol fel arfer, mewn meysydd allweddol fel gwella'r nifer sy'n cael eu brechu, gwella ansawdd trefniadau presgripsiwn rheolaidd, a lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu i bobl y gellir eu rheoli yn y fferyllfa.

Fel rhan o'r cytundeb ariannu aml-flwyddyn a wnaed yn gynharach yn 2021, cytunwyd i sicrhau bod cyllid ar gael i benodi 60 o arweinwyr fferylliaeth gymunedol mewn clystyrau gofal sylfaenol a fyddai'n cydgysylltu ac yn arwain fferyllfeydd cymunedol ym mhob clwstwr. Mae'r swyddi hyn bellach wedi bod ar waith ers chwe mis a bydd cyllid ar gyfer y cynllun cydweithio a'r arweinwyr yn parhau fel rhan o'r cytundeb CPCF hwn. Er mwyn sicrhau bod manteision rolau arweinwyr yn cael eu gwireddu, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru i gynnal gwerthusiad o'r flwyddyn gyntaf ar ôl eu cyflwyno i nodi blaenoriaethau ar gyfer cryfhau'r rôl.

Bydd y cynllun Ansawdd a Diogelwch sydd wedi'i gynnwys yn y CPCF ers 2018–19 yn parhau ar yr un ffurf yn fras. Bydd newidiadau i'r cynllun yn cael eu trafod yn flynyddol.



## Gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae fferyllfeydd cymunedol yn ei wneud i'r GIG

Mae cyllid CPCF ar gyfer 2022–23 eisoes wedi'i gytuno ar £154.2 miliwn, sy'n gynydd o 2% yn y cyllid ar gyfer 2021–22. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2022, bydd aiddosbarthu cyllid a ddechreuwyd yn 2017–18 yn cael ei gyflymu i gefnogi ein dyheadau i weld pob fferyllfa'n ehangu'r gwasanaethau clinigol a ddarperir ganddynt.

Dangosir y dadansoddiad o'r newidiadau cyllid o 2022-23 i 2024-25 yn nhabl un. I grynhoi, dyma'r prif newidiadau i ddsbarthiad y cyllid:

### O fis Ionawr 2022

- Gwneir cyfres o newidiadau i ffioedd gwasanaethau clinigol i adlewyrchu gwerth y gwasanaethau hynny i'r GIG yn fwy priodol a'r angen i incwm gwasanaeth dalu costau a arferai gael eu talu gan incwm rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hól-ddyddio i fis Ebrill 2021.

### O fis Ebrill 2022

- Bydd cap o £80 miliwn y flwyddyn ar ffioedd dosbarthu presgripsiynau gyda chyllid cyffredinol yn gysylltiedig â dosbarthu presgripsiynau yn gostwng i £106.8 miliwn.
- Bydd taliadau ar gyfer dosbarthu presgripsiynau rheolaidd a lwfansau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn dod i ben ac yn dod yn rhwymedigaethau o dan y taliad sefydlu.
- Bydd taliadau sefydlu yn cael eu symleiddio gyda'r taliad sefydlu presennol sy'n gysylltiedig â'r lefelau dosbarthu presgripsiynau gofynnol yn cael ei leihau, a bydd balans y cyllid yn cael ei ddychwelyd i fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.
- Bydd taliadau ymarfer yn cael eu capio ar £17.9 miliwn.
- Bydd unrhyw gynydd mewn costau dosbarthu sy'n gysylltiedig ag eitemau presgripsiwn o ysbytai a ddsberthir mewn fferyllfeydd cymunedol yn cael ei eithrio o gyfrifo cyllid CPCF ac yn cael ei dalu gan y byrddau iechyd perthnasol.
- Bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau clinigol a ymgorfforir yn y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol neu a gomisiynir yn lleol yn cynyddu i £15.0 miliwn.
- Bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu annibynnol yn cynyddu i £4.2 miliwn.
- Bydd cyllid i gynnal trefniadau ar gyfer cleifion sy'n gwarchod eu hunain neu'n hunanynysu yn ystod COVID-19 yn dod i ben a bydd y gwasanaeth Adolygu Defnydd o Feddyginiaethau (MUR) yn dod i ben.
- Bydd hyd at £4.3 miliwn ar gael i gymell recriwtio a hyfforddi technegwyr fferyllol mewn fferylliaeth gymunedol.
- Bydd trosglwyddo £0.4 miliwn ar gyfer cynnal a datblygu Dewis Fferyllfa gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dod yn gyllid rheolaidd.

### O fis Ebrill 2023<sup>5</sup>

- Bydd cyllid cyffredinol sy'n gysylltiedig â dosbarthu presgripsiynau yn gostwng i £99.2 miliwn y flwyddyn ac yn parhau ar y lefel hon.
- Bydd y taliad parhad yn dod i ben ac yn cael ei ymgorffori yn yr elfen o'r taliad sefydlu sydd ar gael i'r fferyllfeydd hynny sy'n darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.
- Bydd taliadau ymarfer yn cael eu capio ar £10.2 miliwn y flwyddyn ac yn aros ar y lefel hon.
- Bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau clinigol a ymgorfforir yn y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol neu a gomisiynir yn lleol yn cynyddu i £16.0 miliwn.
- Bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu annibynnol yn cynyddu i £12.2 miliwn.
- Bydd hyd at £4.3 miliwn ar gael i gymell recriwtio a hyfforddi technegwyr fferyllol mewn fferylliaeth gymunedol.

### O fis Ebrill 2024<sup>5</sup>

- Bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau clinigol a ymgorfforir yn y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol neu a gomisiynir yn lleol yn cynyddu i o leiaf £18.0 miliwn.
- Bydd y cyllid ar gyfer gwasanaethau presgripsiynu annibynnol yn cynyddu i o leiaf £18.4 miliwn.

5. Bydd y cyllid gwirioneddol yn dibynnu ar gytundeb i lefel y cynnydd yng nghyllid cyffredinol CPCF.

Y tu hwnt i 2022–23, nid yw cyllid y dyfodol wedi'i gytuno eto. Fodd bynnag, fel rhan o'r cyllid cytundeb ar gyfer y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, bydd gwasanaethau clinigol a gomisiynir yn lleol a phresgripsiynu annibynnol yn cynyddu yn unol â thwf chwyddiant yn nhâl y GIG; bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynnydd yn lefel gyffredinol cyllid CPCF.

**Tabl: Crynodeb o newidiadau i ddsbarthiad cyllid CPCF**

	2021/22	2022/23 <sup>6</sup>	2023/24	2024/25
CYFANSWM CPCF	151.2	154.2	154.2 <sup>7</sup>	154.2 <sup>7</sup>
Ffioedd proffesiynol	80	80	80	80
Taliadau sefydlu (Dosbarthu)	17.6	8.9	9	9
Taliadau sefydlu (PCCS)	0	8.9	13.3	13.3
Taliad Ymarfer	25.7	12.8	5.1	5.1
“Telerau Gwasanaeth”	0	5.1	5.1	5.1
Cydweithio	1.1	1.1	1.1	1.1
Ansawdd a Diogelwch	3.6	3.6	3.6	3.6
Parhad	4.3	4.3	0	0
Arweinwyr Clwstwr Gofal Sylfaenol	0.1	0.1	0.1	0.1
Cymhwysiad Dewis Fferyllfa	0.4	0.4	0.4	0.4
Gwasanaethau clinigol gan gynnwys PCCS	11.4	15	16	18
Gwasanaethau Presgripsiynu Annibynnol (IP)	1	4	12	18.2
Sefydlu Presgripsiynu Annibynnol	0.2	0.2	0.2	0.2
Defnyddiau traul STTT	0.1	0.1	0.1	0.1
Trefniadau ar gyfer cleifion sy'n hunanynysu <sup>8</sup>	5.8	0	0	0
Galluogydd y Gweithlu (cyllid technegwyr)	0	4.3	4.3	0
Heb ei ddyrannu	0	5.4	3.9	0

6. Diwedd y cytundeb aml-flwyddyn presennol

7. Mae cyllid yn 2023/24 a 2024/25 yn amodol ar dwf chwyddiant yn nhâl y GIG ac nid yw'r lefel yn hysbys eto

8. Roedd y cyllid yn cefnogi'r gwasanaeth Adolygu Defnydd o Feddyginiaethau (MUR) yn flaenorol



# Beth arall rydym yn ei wneud

Bydd gwireddu ein huchelgais ar gyfer fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn gofyn am gymorth parhaus i leihau gwastraff, trawsnewid a moderneiddio arferion, a chynyddu ymwybyddiaeth o rôl fferyllfeydd wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG. I wneud hynny byddwn yn:

- Cyhoeddi'r adolygiad a gomisiynwyd yn flaenorol o lefelau dosbarthu meddyginiaethau presgripsiwn yng Nghymru ochr yn ochr â chynllun sy'n nodi sut y caiff argymhellion yr adolygiad eu gweithredu.
- Adeiladu ar y buddsoddiad o £450,000 a wnaed mewn fferyllfeydd cymunedol ers 2019–20 i wella effeithlonrwydd ac ansawdd dosbarthu meddyginiaethau drwy ddefnyddio technoleg ac awtomeiddio'n fwy effeithiol, drwy gynnig cymorth wedi'i dargedu i fferyllfeydd.
- Parhau i ddarparu mynediad at adnoddau a gwybodaeth ddigidol angenrheidiol i bob fferyllfa yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys darparu mynediad i Microsoft 365, mynediad i'r Gwasanaeth Fideo-Gynadledda Cenedlaethol (NVCS), ehangu mynediad i Gofnod Meddygon Teulu Cymru (WGPR), a sicrhau bod e-grynodedbau ar gael ar draws yr holl wasanaethau a gefnogir gan *Dewis Fferyllfa* i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.
- Sicrhau bod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cyhoeddi data canlyniadau gwasanaethau clinigol ar gyfer pob fferyllfa gymunedol a chlwstwr gofal sylfaenol fel mater o drefn.
- Comisiynu adolygiad o'r telerau gwasanaeth presennol ar gyfer contractwyr fferyllol, gan ddechrau yn 2022–23, gyda'r nod o leihau biwrocratiaeth ddiangen a baich gweinyddol fferyllfeydd cymunedol.
- Gweithio gyda DHCW i weithredu argymhellion yr adolygiad eBresgripsiynu a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021.
- Gwneud gwaith i ganfod a oes cyflyrau pellach y gellid eu rheoli mewn fferyllfeydd cymunedol, er enghraifft drwy ymestyn y gwasanaeth anhwylderau cyffredin, a fyddai'n lleihau'r galw ar rannau eraill o'r GIG.
- Parhau i hyrwyddo rôl estynedig fferyllfeydd cymunedol yn benodol ac fel rhan o waith ehangach fel *Helpwch Ni i'ch Helpu Chi*<sup>9</sup> sy'n hyrwyddo defnydd mwy priodol o wasanaethau'r GIG.



9. <https://www.facebook.com/welshgovernment/videos/help-us-help-you/2611345602489706/>

# Casgliad

---

Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer dyfodol cynaliadwy i fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, dyfodol sy'n canolbwyntio mwy ar y clinigol, gyda llai o bwyslais ar ddsbarthu meddyginiaethau a mwy ar roi cyngor a chymorth i bobl gadw'n iach.

Mae'r diwygiadau'n darparu gwasanaeth fferylliaeth gymunedol a fydd yn bodloni'r disgwyliadau sydd gan fferyllwyr a

thechnegwyr fferyllol sydd newydd eu cofrestru ac y byddant yn eu disgwyl fwyfwy wrth i newidiadau i addysg a hyfforddiant cychwynnol gweithwyr fferyllol proffesiynol ddatblygu. Yn bwysig iawn, mae'r diwygiadau'n helpu i fodloni'r dyheadau sydd gan y GIG i'r sector sicrhau y gall fferyllfeydd cymunedol barhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal iechyd a lles pobl Cymru.

